Y papurau a'r cylchgronau yn dwyn i gof CLEDWYN WILLIAMS

# Pan oedd Victoria ar ei gorsedd Gymreig

'DOEDD fawr o ddim yn digwydd i dorri ar dawelwch pentref bychan Brynrefail, ar gwr gogleddol Llyn Padarn, Eryri ar wahân i grinsian traed y chwarelwyr ar eu ffordd, cyn toriad gwawr, am y trên i'w cludo i gloddio cyfoeth o glogwyni Elidir i 'Ŵr yr Aur a'r Faenol', ac ambell i chwiban y trên ar ei ffordd i ddosbarthu ffrwyth eu llafur i bedwar ban byd.

Ar ryw brynhawn hyfryd un haf, torrwyd ar y distawrwydd llethol hwn gan fonllefau plant y pentref; 'roeddynt wedi gweld rhyfeddod nas gwelwyd erioed o'r blaen yn y cylch. Gosgordd hirfaith o gerbydau mawreddog a lliwgar, a phob cerbyd yn cael ei dynnu gan bedwar ceffyl nwyfus, a'r cwbl yn tuthian yn araf tua'r pentref.

'Roedd pump o goetsus a dau yrrwr talsyth lliwgar yn eistedd ar sedd flaen pob cerbyd; ni ddychmygwyd y gwelid y fath ryfeddod yn y fro werinol hon.

Heidiodd mamau'r fro yn dyrfa gynhyrfus ar sgwâr bychan y pentref i rannu ac i brofi o'r fath achlysur unigryw. Clywid sisial gan 'hwn a'r llall'. Ia, byddigions oeddynt, yn aros yn y Faenol, cartref y teulu a feddiannodd gyfoeth y cylch a Chwarel Dinorwig. Ar eu ffordd yr oeddynt, mae'n debyg, i'r Chwarel.

Er syndod, arafodd y fintai fawreddog, a buan y daeth yn amlwg fod y cerbydau am aros am gyfnod yn y pentref.

* * * *

'ROEDD cynnwrf anghyffredin yn y drydedd goets, y ganol yn yr osgordd. Camodd dwy ferch osgeiddig a lluniaidd yr olwg ar frys o'r cerbyd a phrysuro at dyrfa o ferched oedd yn sefyll wrth ganllaw'r bont. 'Roedd rhyw furmur o sisial fod wynepryd y wraig oedrannus a adawyd ar ôl yn y trydydd cerbyd, rywsut yn gyfarwydd, eto 'roedd pawb rhy bryderus i wneud datganiad. Nid oedd posibilrwydd o gwbl i fedru gwireddu'r fath ddychymyg; na nid oedd posibilrwydd i'r fath beth.

Cyd-gerddodd dwy o wragedd y fro gyda'r merched dieithr i ddrws 'Tŷ Coch', bwthyn unllawr yng nghanol y pentre', a churo ar y drws; buan y daeth Mrs Jones i'w croesawu. Yng nghanol y siarad dyma'r gair 'Welcome' a Mrs Jones yn troedio allan a chwifio ei breichiau i gyfeiriad cefn y tŷ, ac ailadrodd y gair 'Welcome' gyda mwy o bwyslais bob tro.

Rhuthrodd y merched dieithr at y goets ganol a'r wraig oedrannus a'i thywys i lawr gan roddi ei thraed yn ofalus ar y ffordd. Cerddodd y tair i gyfeiriad Tŷ Coch a golwg bryderus iawn arnynt, y ddwy yn gafael yn dyner iawn yn nwylo'r wraig oedrannus.

Sylwyd fod ei gwedd yn welw, ei gwefusau yn fain-dynn, a'i cherddediad yn 'fân ac yn fuan' ar flaenau ei thraed. Safai Mrs Jones o flaen Tŷ Coch yn ailadrodd 'Welcome' niferoedd o weithiau, a'i breichiau fel melin wynt yn cyfarwyddo tua chefn y tŷ, a'r tair yn ufuddhau.

* * * *

AR ÔL ychydig amser, ymddangosodd y tair o gysgod cefn Tŷ Coch. Y wraig oedrannus braidd yn wynep-goch, yn wên o glust i glust, ac yn brasgamu tua'r ffordd fawr a'r goets; un o'r morynion yn cael sgwrs â Mrs Jones, y ddwy yn nodio'r pen a'r ddwy i'w gweld yn dra hapus. Buan y diflannodd y coetsus mawreddog tua Phen Llyn, ar eu ffordd i Chwarel Dinorwig.

Beth tybed oedd wrth wraidd y cyffro? Dim byd o gwbl, ond fod y Frenhines Victoria wedi rhoddi sêl ei bendith ar Dŷ Bach y Tŷ Coch. Yr oedd wedi cael pwl sydyn o gnofa yn ei hymysgaroedd — cinio rhy foethus efallai — ac wedi gorfod defnyddio, ar fyrder, unrhyw gyfle am ymwacâd oedd wrth law.

Bûm yn byw ym Mrynrefail am flynyddoedd pan oeddwn yn gweithio yn y cylch ac adroddodd y diweddar Robert Jones (Bob Jones Tŷ Coch, dyna'i gartref) yr hanes wrthyf lawer tro.

A gadwyd sedd y 'tŷ bach' hwnnw a fu'n orseddfainc Prydain Fawr am gyfnod yn yr haf pellennig hwnnw? Chlywais i ddim sôn.

# Ychwaneg o drychinebau teulu O.M.

AGORWYD Ysgol y Bwrdd, Bethel, Caernarfon yn 1864 gyda Mr W J Williams yn Brifathro. Dilynwyd ef, cyn diwedd y ganrif, gan Mr Griffith R Hughes. Gŵr o ben uchaf Plwyf Llanddeiniolen oedd Mr Hughes, ac wedi cymhwyso ei hunan fel athro trwyddedig yn y Coleg Normal, Bangor.

Cyn dyfod i Fethel, bu am gyfnod yn athro yn Llanuwchllyn. Yno, cyfarfu ac fe briododd Kate, chwaer Elin, gwraig Syr O M Edwards, a gafodd ddiwedd trychinebus. Bu iddynt dri o blant: David Tegid, a fu farw Ionawr 3ydd, 1889 yn naw mis oed, ac a gladdwyd ym mynwent Capel yr Annibynwyr ym Methel; Ieuan a Gwendoline, a adnabyddid fel 'Lini'.

Ar nos Wener, Ionawr 28ain 1907, 'roedd gŵr o'r pentref wedi galw yn Nhŷ'r Ysgol, i ymdrin ag un o'r amryw broblemau sy'n codi'n weddol aml â phlant sydd yn yr ysgol. Curodd y gŵr ar y drws a daeth Mrs Hughes ymlaen.

Roedd yn amlwg ei bod mewn hwyliau rhagorol ac wedi egluro y rheswm am ei ymweliad daeth Mr Griffith Hughes ar fyrder i ymdrin â chais y gŵr. 'Roedd yn amlwg fod popeth yn rheolaidd ar aelwyd Tŷ'r Ysgol.

Cyd-gerddodd Mr Grifith Hughes a'r gŵr o'r pentref yn araf tua'r giat a oedd yn arwain i'r briffordd. Wrth wahanu, trodd y gŵr ar ei sawdl a cherdded tuag adref, a throdd Mr Griffith Hughes tua'r tŷ. Brawychwyd ef o weld ei briod, Kate, wedi boddi ei hun ger y cartref.

Ceisiodd ei orau i adfer ei bywyd ond ofer fu ei ymdrechion. Fel roedd yn digwydd, roedd y Doctor Henry Edwards o'r Felinheli ar ei ddyletswyddau proffesiynol yn y pentref a galwyd ef i ddod ar frys, ond ofer fu ei ymdrechion yntau.

Y bore Llun dilynol galwodd Mr Griffith Hughes yn yr ysgol i ddweud fod trychineb wedi digwydd yn ei gartref, ac na fyddai'r Ysgol yn cyfarfod ar y dydd Mercher ac roedd yn amlwg ei fod o dan deimlad difrifol.

Claddwyd Mrs Hughes ym meddrod ei phlentyn ym mynwent Capel yr Annibynwyr ym Methel.

* * * *

YMHEN amser, priododd Mr Griffith Hughes â merch a oedd yn cadw tŷ i'r Parch T J Taynon, Cwm y Glo, gweinidog yr Annibynwyr yn y pentref. 'Rwyf yn cofio'r wraig yma yn dda, ac fe gafodd y ddau flynyddoedd hapus iawn gyda'i gilyd.

Aeth Ieuan, y mab, i weithio i gyffiniau Rugby, Swydd Warig; aeth Lini i Ysgol y Dr Williams Dolgellau ac oddi yno i Brifysgol i wneud gradd. Bu'r diweddar Ieuan James, BSc, cyn-brifathro Ysgol Brynrefail yn ddisgybl yn ei dosbarth Ffrangeg yn un o ysgolion Eilradd Cwm Tawe.

Gadawodd Lini Gwm Tawe ac aeth yn athrawes i Ysgol Ramadeg yng nghyffiniau Llundain, ac ymhyfrydai fod Diana Durbin wedi bod yn un o'i disgyblion. Ymddeolodd ym mlynyddoedd cynnar yr Ail Ryfel Byd, a daeth i fyw i fwthyn ym Methel.

Cefais aml i sgwrs â hi, 'roedd yn amlwg ei bod yn dal cysylltiad agos â'i theulu yng nghyffiniau Llanuwchllyn. Wedi ymddeol, fe aeth Griffith Hughes a'i ail wraig i fyw i 'Arwel' Pontrhythallt, Llanrug.

Mae'r ddau wedi eu claddu ym mynwent yr Eglwys ym Mhenisarwaun. Bu 'Lini' farw Chwefror 11eg, 1962, ac fe'i claddwyd ym meddrod ei mam a'i brawd ym mynwent yr Annibynwyr ym Methel.

# A phwy oedd yn y Castell ond Nehru

WEDI I gyrchoedd mileinig Awyrlu'r Almaen ar Ddinas Lerpwl ostegu, ymunais â'r Fyddin ac mewn ychydig o amser yr oeddwn yn aelod o'r 14eg Fyddin yn fforestydd llaith a dudew Burma.

Ein cyrchfan derfynol oedd Ahmadnagar; lle delfrydol i ymarfer ar y gwstadeddau; 'roeddym i wersylla tu mewn i furiau castell anferth, mwy o lawer na Chastell Caernarfon:

Amgylchwyd y Castell a ffos anferth ond 'roedd yn sych fel y garthen. Cymaint oedd y ffos fel bod diadell o ddefaid a geifr yn pori'n braf ynddi. Nid dyma y traddodiad. Cyn ac yn ystod dyddiau'r darostwng 'roedd dyfroedd clir fel grisial hyd at yr ymylon — ond erys eu tarddiad yn ddirgelwch.

Am fod afiechydon heintus yn endemig yn y dre' cyfyngwyd, yn gaeth dros ben, ar rannau o'r gymdogaeth lle 'roedd rhyddid i dramwyo drwyddynt a buan y sylweddolwyd fod rhan helaeth o du fewn y castell nad oedd ganiatâd i fynd yn agos iddo.

Buan y gwelwyd milwyr dethol yn troedio yn benrhydd tu mewn i'r maes cyfyngedig yma. O wneud ymholiadau yn ddistaw a phwyllog, cawsom oleuni ar y dirgelwch.

'Roedd caban, neu gwt, o'r math brodorol, yn sefyll yng nghanol y maes cyfyngedig a dau ŵr yn byw ynddo, nad oedd rhyddid iddynt sangu eu traed hyd yn oed tu allan i'w riniog. Clustnodwyd milwyr dewisedig i'w gwasanaethu, ac i ufuddhau i bob cais o fewn rheswm.

Pandit Nehru oedd un o'r gwŷr. Hindw o'r llinach a'r dras uchaf. Gŵr cyfoethog, wedi ei fendithio yn hael â gallu cynhenid anghyffredin. Maulanna Azad oedd y gŵr arall. Muslim cyfoethog. Eto wedi ei fendithio yn helaeth â gallu anianol tu hwnt i'r cyffredin a Llywydd Plaid y Gyngres Indiaidd *(President of the Indian Congress Party)*.